

**2018 Rhif (Cy.)**

**2018 No. (W.)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A5  
(Ffordd Osgoi'r Waun, Bwrdeistref  
Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a  
Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)  
2018

The A5 Trunk Road (Chirk Bypass,  
Wrexham County Borough)  
(Temporary Traffic Prohibitions &  
Restrictions) Order 2018

*Gwnaed* 27 Mawrth 2018

*Made* 27 March 2018

*Yn dod i rym* 1 Ebrill 2018

*Coming into force* 1 April 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 London to Holyhead Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4), (7) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4), (7) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Osgoi'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Ebrill 2018.

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Chirk Bypass, Wrexham County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2018 and it comes into force on 1 April 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

- (a) any vehicle being used by the emergency services; and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi, Ffordd Osgoi'r Waun ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Halton;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

## Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds: or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A5 London to Holyhead Trunk Road, Chirk Bypass in the County Borough of Wrexham that extends from the Wales/England border to its junction with the southern side of Halton Roundabout;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 1 April 2018 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

## Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride or cause or permit any pedal cycle to be ridden on the length of the trunk road.

5. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road.

6. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road.

7. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other

fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

### **Atal Dros Dro**

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.

### **Dirymu**

**9.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Osgoi'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017(2) a Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Ffordd Osgoi'r Waun, Bwrdeistref Sirol Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2018(3) wedi eu dirymu.

### **Cymhwyso**

**10.**—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**11.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

27 Mawrth 2018

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

(2) O.S. 2017/738 (Cy. 178).  
(3) O.S. 2018/76 (Cy. 20).

vehicle on the length of the trunk road.

### **Suspension**

**8.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in articles 5 and 6 are in operation.

### **Revocation**

**9.** The A5 Trunk Road (Chirk Bypass, Wrexham County Borough) (Temporary 50 mph Speed Limit & No Overtaking) Order 2017(2) and The A5 Trunk Road (Chirk Bypass, Wrexham County Borough) (Temporary 40 mph Speed Limit & No Overtaking) Order 2018(3) are revoked.

### **Application**

**10.**—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### **Duration of this Order**

**11.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

27 March 2018

*Nina Ley*

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

(2) S.I. 2017/738 (W.178)  
(3) S.I. 2018/76 (W.20)

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (FFORDD  
OSGOI'R WAUN, BWRDEISTREF SIROL  
WRECSAM) (GWAHARDDIADAU A  
CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, wrth Ffordd Osgoi'r Waun, Wrecsam.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 19:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2018 ac y byddant yn weithredol yn ysbeidiol, fel sy'n ofynnol am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i'r gwaith ddechrau.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd a beiciwr, ac eithrio cerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar hyd y darn o Ffordd Osgoi'r Waun rhwng ffin Cymru/Lloegr a Chylchfan Halton.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd o Gylchfan y Gledryd fydd mynd ar y B5070 Chirk Road tua'r gogledd ac ar yr A5 tua'r dwyrain i ailymuno â'r gefnffordd wrth Gylchfan Halton: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de o Gylchfan Halton. Bydd y cyfyngiad pwysau ar bont y B5070 yn y Waun yn cael ei atal dros dro tra bo'r gwaith yn cael ei wneud.

ii. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 50 mya neu 40 mya a gwahardd goddiweddyd ar yr adegau hynny ar y darn o'r A5 a ddisgrifir uchod.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2018).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (CHIRK BYPASS,  
WREXHAM COUNTY BOROUGH)  
(TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS &  
RESTRICTIONS) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road at Chirk Bypass, Wrexham.

The temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 19:00 hours on 1 April 2018 and operate intermittently, as required, for a maximum duration of 18 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed prior to their commencement.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles and cyclists, other than vehicles being used by the emergency services and for the works, from proceeding along the length of the Chirk Bypass between the Wales/England border and Halton Roundabout.

The alternative route for northbound traffic from Gledrid Roundabout will be via the northbound B5070 Chirk Road and eastbound A5 to re-join the trunk road at Halton Roundabout: vice versa for southbound traffic from Halton Roundabout. The weight restriction on the B5070 bridge at Chirk will be suspended whilst works are undertaken.

ii. Impose either a 50 mph or 40 mph speed limit and prohibit overtaking during such times on the length of the A5 described above.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government